



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Barn ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol)
(Amodau) (Cymru) drafft a'r cynnig y dylai cynghorau cymuned sy'n bodloni meini
prawf penodol gael pŵer i fasnachu.

Medi 2021

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: *Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 a phŵer awdurdodau lleol i fasnachu.*

1. Cyflwyniad

Yr Ymgynghoriad Hwn

Ar 22 Mawrth, lansiodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd ymgynghoriad ar gynigion mewn perthynas â'r pwerau y gall awdurdodau lleol yng Nghymru wneud pethau at ddiben masnachol oddi tanynt (y cyfeirir atynt hefyd fel pŵer i fasnachu).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos rhwng 22 Mawrth 2021 a 11 Mehefin 2021 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol, y Rheoliadau statudol drafft a'r ffurflen ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. E-bostiwyd dolen i'r ymgynghoriad i'r holl brif gynghorau a chynghorau cymuned a thref, yn ogystal ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar dri chynnig, sef:

- rhagnodi amodau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol cymwys eu bodloni wrth arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol;
- ail-wneud y gorchymyn masnachu; a
- ymestyn y broses o gymhwyso'r Rheoliadau drafft hyn i gynnwys cynghorau cymuned cymwys pan fydd y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cychwyn ar gyfer yr awdurdodau hyn ym mis Mai 2022.

2. Y broses ymgynghori

Pwy ymatebodd?

Cafwyd cyfanswm o 18 o ymatebion erbyn y dyddiad cau. Daeth chwe ymateb arall i law ar ôl y dyddiad cau ond maent wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, a'u hystyried at ddiben y camau nesaf.

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

7 Cyngor cymuned a thref
5 Prif gyngor
5 Dienw
2 Gorff cynrychioliadol, corff proffesiynol neu gymdeithas
2 Gorff Archwilio/Arolygu/Rheoleiddio
1 Undeb Llafur
1 Cwmni Preifat
1 Arall

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr, heblaw am y rhai a oedd am aros yn ddiennw, yn **Atodiad B**.

3. Crynodeb o'r ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio cyfleu pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr yn fanwl. Gofynnodd yr ymgynghoriad 11 o gwestiynau penagored a chrynohoir yr ymatebion i bob un isod.

Nid atebwyd pob un o'r cwestiynau gan bob ymatebydd.

Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad – A yw'r rheoliadau drafft yn glir?

Atebodd pob un o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r 24 o ymatebion, roedd 23 yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn glir neu'n glir yn gyffredinol a'u bod yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys pob prif gyngor a chyngor tref a chymuned a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Ymhlith y prif bwyntiau a wnaed mae'r canlynol:

- Ychwanegodd rhai ymatebwyr y gellid ymestyn y rheoliadau ymhellach er mwyn mynd i'r afael â materion llywodraethu megis gwrthdaro buddiannau, yn enwedig mewn perthynas â chynghorau cymuned;
- Nododd dau ymatebydd y gallai'r rheoliadau fynd ymhellach i gynnwys y defnydd o bwerau i fenthyca, gydag un yn nodi y *“dylai'r ymgynghoriad nodi'n glir na ddylai awdurdodau fenthyca er mwyn talu am wariant referniw yr eir iddo gan gwmnïau y maent yn eu sefydlu drwy drefniadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol newydd”*.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno, gan nodi nad yw Rheoliad 2(2) yn ddigon penodol i sicrhau bod achosion busnes yn addas at y diben o sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu'n briodol wrth fasnachu gan ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Cwestiwn 2 – A yw'r gofynion yn y rheoliadau drafft, mewn perthynas â'r achos busnes, yn ymdrin â'r pethau cywir? A oes unrhyw faterion eraill y dylai fod yn ofynnol i'r achos busnes eu cynnwys?

Cafwyd cyfanswm o 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cadarnhau bod y rheoliadau yn ymdrin â'r pethau cywir. Gwnaeth sawl un sylwadau yn nodi y dylai'r rheoliadau ymdrin â materion mwy ymarferol ehangach.

Ychwanegodd un ymatebydd yr ymddengys nad yw'r gofynion ar gyfer yr achos busnes wedi'u datblygu ddigon yn y rheoliadau.

Ymhlith y prif bwyntiau a wnaed mae'r canlynol:

- Galwodd sawl ymatebydd o gyngor cymuned am i ganllawiau a thempledi gael eu darparu gydag enghreifftiau o faterion/meysydd i'w hystyried wrth baratoi achos busnes ar gyfer cynghorau cymuned.
- Gofynnodd sawl ymatebydd am ragor o ganllawiau ar faterion penodol y dylai'r achos busnes ymdrin â nhw. Roedd hyn yn cynnwys:
 - nodi cyfnodau adolygu,
 - defnyddio [rhestr wirio](#) achosion busnes Trysorlys EM fel man cychwyn,
 - nodi manteision yr angen i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol,
 - nodi'r manteision o gymharu â'r sefyllfa bresennol neu wneud dim,
 - nodi'r risgiau a lle maent i'w cael,
 - pa gamau lliniaru fyddai'n cael eu cymryd pe na bai incwm yn cael ei gynhyrchu,
 - pam mae'r manteision yn drech na'r risgiau gyda dealltwriaeth o'r effaith ariannol o dan wahanol senarios,
 - nodi strwythur y cwmni ac a oes angen cyngor proffesiynol ac arbenigol neu a dderbynnir cyngor proffesiynol ac arbenigol.

- Hefyd, gwnaed rhai awgrymiadau mewn perthynas ag eglurder yn yr achos busnes. Er enghraifft, nododd un ymatebydd y dylai'r achos busnes nodi pwy sy'n gyfrifol os bydd cwmni yn mynd yn ansolfent a strwythur y cwmni (h.y. elusen, ymddiriedaeth, cwmni ac ati) ac na ddylai'r rhai sydd â gwrthdaro buddiannau fod yn rhan o'r broses benderfynu.
- Nododd un ymatebydd y dylai achosion busnes fod yn gymesur ac, felly, y dylai'r rheoliadau ganiatáu cynllun dirprwyo er mwyn adlewyrchu hyn ar lefel swyddog briodol.
- Ychwanegodd ymatebydd arall y dylai'r achos busnes gyfeirio at fesurau diogelu staff, gan wneud yn siŵr bod undebau llafur yn cael eu cydnabod a bod cyflogeion yng nghwmnïau masnachu awdurdodau lleol yn cael ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol.
- Teimlwyd y dylai unrhyw ganllawiau gyfeirio at safonau'r Gymraeg yn enwedig ar gyfer cynghorau cymuned am nad ydynt yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, er bod rhai yn gweithredu cynlluniau Cymraeg.
- Nododd un ymatebydd y dylai'r achos busnes gyfeirio at y sgiliau sydd eu hangen, gwerth am arian, adolygu perfformiad yn rheolaidd a chrynodeb o wybodaeth am asesiadau statudol. Ychwanegodd yr ymatebydd y dylai'r strategaeth fasnachol fod yn ofyniad ychwanegol ar wahân i'r achos busnes er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 2.

Cwestiwn 3 – A ddylai'r rheoliadau nodi pwy ddylai gymeradwyo'r achos busnes? Os felly, pwy ddylai wneud hynny?

Cafwyd 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn heb unrhyw gonsensws cyffredinol. Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr o gynghorau cymuned am i'r rheoliadau nodi pwy sy'n cymeradwyo'r achos busnes. Ar y llaw arall, roedd wyth ymatebydd, o brif gynghorau yn bennaf, yn anghytuno gan nodi na ddylai'r rheoliadau fod yn rhy ragnodol ac y dylai'r penderfyniad gael ei wneud yn lleol.

Ymhlith y prif bwyntiau a wnaed ynghylch pwy a ddylai gymeradwyo'r achos busnes mae'r canlynol:

- Gofynnodd rhai prif gynghorau ai swyddogaeth weithredol neu swyddogaeth cyngor (etholedig) oedd y swyddogaeth, gan nodi y byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ynglŷn â'r mater.
- Nododd un ymatebydd y dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan aelodau etholedig.
- Awgrymodd ymatebydd arall mai'r corff sy'n ariannu'r achos busnes a ddylai fod yn ei gymeradwyo.
- Awgrymodd un prif gyngor, gan y byddai gweithgaredd o'r fath yn dod o dan broses pennu cyllideb cyngor, y dylid ei gynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb referniw a'r gyllideb gyfalaf a gymeradwyir gan y cyngor llawn.
- Awgrymodd y rhan fwyaf o gynghorau cymuned mai'r cyngor llawn a ddylai gymeradwyo'r achos busnes, er i un ymateb nodi mai unigolyn niwtral, nad yw'n cael ei gyflogi mewn awdurdod na chyngor cymuned a ddylai ei gymeradwyo; roedd un arall yn anghytuno, gan nodi na ddylai'r rheoliadau fod yn rhy ragnodol.
- Roedd dau ymatebydd o'r farn y byddai Un Llais Cymru yn bwynt cyfeirio addas ar gyfer gwneud sylwadau ar achosion busnes, er y byddai goblygiadau o ran adnoddau i Un Llais Cymru yn gysylltiedig ag ymgymryd â'r gweithgaredd ychwanegol hwn ar ran y sector.
- Nododd un ymatebydd: *“Rhaid i'r achos busnes gael ei gymeradwyo, fel gofyniad sylfaenol, gan bwyllgor gweithredol neu gabinet awdurdod lleol (yn ddarostyngedig i drefniadau o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Ar gyfer cynigion mwy*

sylweddol (uwchlaw trothwy y penderfynwyd arno'n lleol efallai), byddai'n well i'r mater hwn gael ei benderfynu gan y cyngor llawn."

- Awgrymodd un ymatebydd na ddylai'r rhai sydd â gwrthdaro buddiannau fod yn rhan o'r broses benderfynu.

Cwestiwn 4 – Beth yw eich barn am y cynnig i gymhwyso'r rheoliadau drafft at gynghorau cymuned cymwys?

O'r 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, mynegodd y mwyafrif farn gadarnhaol ynglŷn â rhoi cyfle i gynghorau cymuned cymwys allu ystyried cyfleoedd masnachol, gan nodi ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir a'i fod yn rhoi cyfle gwych iddynt.

Ymhlith y prif bwyntiau amodi yn yr ymatebion mae'r canlynol:

- Roedd un ymatebydd yn cytuno ond roedd yn pryderu bod y porth i allu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol a gwneud pethau at ddiben masnachol yn dibynnu ar ddod yn gyngor cymuned cymwys a bod rhan o hyn yn dibynnu ar gyflogi clerics â chymwysterau priodol.
- Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig a oedd gan gynghorau cymuned yr arbenigedd i allu datblygu'r achosion busnes hyn.
- Roedd eraill yn cytuno ar yr amod bod mesurau diogelu digonol yn cael eu rhoi ar waith a bod sicrwydd digonol yn cael ei roi.
- Nododd un ymatebydd risg ychwanegol bosibl am fod cynghorau cymuned yn gallu codi arian drwy braeseptau blynyddol sy'n golygu y gallant gynyddu lefel y praesept, heb gap, i gyllido meysydd gwaith newydd.

Roedd dau o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gymhwyso'r rheoliadau drafft at gynghorau cymuned a gwnaethant y sylwadau canlynol:

- ailddatganodd un ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i reoliadau mwy cadarn ynglŷn ag achosion busnes gael eu cyflwyno cyn i gynghorau cymuned ymgymryd â gweithgaredd o'r fath;
- awgrymodd yr ymatebydd arall na ddylai fod gan gynghorau cymuned yr un pwerau â phrif gynghorau oherwydd bod enghreifftiau o rai cynghorau cymuned nad oeddent yn gallu rheoli eu cyfrifon eu hunain a oedd wedi arwain at adroddiadau er budd y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ond ychwanegodd yr ymatebydd nad oes un ateb i bawb ac y byddai angen rhai mesurau diogelu, megis mantoli cyfrifon yn achos cynghorau bach â chyllid cyfyngedig, tra na fyddai angen mesurau o'r fath yn achos cynghorau cymuned mawr.

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno y dylid awdurdodi cynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol hefyd. Os nad ydych, pam?

Cafwyd 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni wnaeth pob ymatebydd ymateb i'r cwestiwn ei hun ond, lle gwnaeth yr ymatebwyr hynny, roedd 15 ohonynt yn cytuno'n gyffredinol.

O'r rhai a oedd yn cytuno, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd sawl ymatebydd yn cytuno, ar yr amod bod cynghorau cymuned yn meddu ar y gallu ariannol ac arbenigedd staff i graffu ar drefniadau llywodraethu a rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

- Nododd eraill, pe bai cyngor cymunedol yn bodloni'r gofynion, na fyddai'n wynebu unrhyw broblemau.

Ailddatganodd y rhai a oedd yn anghytuno â chwestiwn 4 eu pryderon a gwnaed y pwynt canlynol hefyd:

- *“Ni ddylai pwerau cyngorau cymuned i fasnachu gael eu hymestyn nes i arbenigedd a galluoedd rheoli cyngorau cymuned gael eu hatgyfnerthu.”*
- Awgrymodd ymatebydd arall fod potensial i gynghorau cymuned gystadlu â chynghorau sirol, gan ofyn a allai cynghorau cymuned ddod at ei gilydd i rannu gwasanaeth.
- Nododd dau ymatebydd fod risg yn gysylltiedig â'r pwerau masnachu hyn ac ychwanegodd un y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyniad i gynghorau beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n anghymesur â'u hadnoddau.

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys fod yn ddarostyngedig i'r un amodau wrth fasnachu yn eu swyddogaethau arferol ac arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol?

Cafwyd 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr oedd 19 ohonynt yn cytuno'n gyffredinol y dylai'r un amodau fod yn gymwys i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys wrth fasnachu yn eu swyddogaethau arferol ac arfer y pŵer cyffredinol.

Ymhlith y prif bwyntiau a wnaed mae'r canlynol:

- Dylai'r amodau fod yr un fath er mwyn osgoi dryswch.
- Awgrymodd un ymatebydd y *“bydd gweithgareddau a gyflawnir drwy ddefnyddio pwerau cyffredinol yn aml yn gofyn am lefel uwch o ddiwydrwydd o ran dadansoddi'r farchnad, rheoli risg a meddu ar ddigon o arbenigedd neu ei geisio. Byddai'n briodol i reoliadau adlewyrchu hyn.”*
- Nododd ymatebydd arall y *“dylai meini prawf cymhwysra a phroses rhoi sicrwydd gadarn sicrhau y bydd y cynghorau hynny sy'n debygol o gyflawni unrhyw fentrau arfaethedig yn llwyddiannus hefyd yn gallu dangos hanes da o lywodraethu llwyddiannus a sefydlogrwydd ariannol.”*

Nid oedd un ymatebydd, y tu allan i'r sector cynghorau cymuned, yn cytuno y dylai prif gynghorau a chynghorau cymuned fod yn ddarostyngedig i'r un amodau wrth fasnachu yn eu swyddogaethau arferol ond roedd hyn ar y sail na ddylai fod gan gynghorau cymuned y pŵer i fasnachu at ddiben masnachol na masnachu yn eu swyddogaethau arferol. Ond ychwanegwyd y gellid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i gynghorau cymuned a gyrhaeddai drothwyon cyllidebol penodol.

Cwestiwn 7 – A fydd gosod yr amodau wedi'u diweddarau, a nodir yn y rheoliadau drafft, ar awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, pan fyddant yn arfer eu pŵer i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol, yn arwain at unrhyw ganlyniadau nad ydym wedi'u hystyried?

Cafwyd llawer llai o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn o gymharu â'r mwyafrif o'r cwestiynau. Nododd rhai ymatebion nad oedd unrhyw ganlyniadau nad oeddent wedi cael eu hystyried mewn perthynas â gosod yr amodau wedi'u diweddarau ar awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Nododd eraill 'ddim yn hysbys' neu ni wnaethant unrhyw sylwadau.

Nododd un ymateb penodol y dylai awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol gael eu trin yn yr un ffordd â phrif gynghorau, gan roi'r un cyfleoedd i'r cyrff hyn arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Soniodd dau ymatebydd am gyflawni ar y cyd ag ardaloedd eraill er mwyn osgoi dyblygu, gydag un yn ychwanegu "Byddai'n ganlyniad anffodus i'r gallu i fasnachu mewn swyddogaethau arferol pe bai'n cyflwyno elfen o anghydfod rhwng y teulu ehangach o wasanaethau cyhoeddus os ydynt yn ceisio cyflawni amcanion masnachol yn yr un marchnadoedd"

Cwestiwn 8 – Er mwyn mireinio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar y costau amcangyfrifedig i awdurdodau sy'n gysylltiedig â pharatoi achos busnes. Byddem hefyd yn croesawu amcangyfrif o unrhyw gostau a allai ddeillio o'r gofyniad i adennill costau oddi wrth y cwmni?

Cafwyd llai o ymatebion i'r cwestiwn hwn o gymharu â'r mwyafrif o'r cwestiynau. Cafodd sylwadau ar y math o gost eu cynnwys ond ni roddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw ateb mewn perthynas â rhoi amcangyfrif o unrhyw gostau.

Roedd sylwadau'r mwyafrif o'r ymatebion gan y sector cynghorau cymunedol yn rhai amodol i ryw raddau ynglŷn â'r costau gan y byddai cost o'r fath yn amodol ar gymhlethdod yr achos busnes.

Gwnaeth ymatebwyr o'r tu allan i'r sector cynghorau cymuned bwyntiau tebyg, gan nodi y byddai costau yn dibynnu ar lefel y manylder y byddai ei angen ar gyfer achos busnes penodol. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y bydd y gwaith o baratoi achos busnes yn gyffredinol yn gostus ac yn mynd â chryn dipyn o amser swyddogion gan gynnwys cyngor swyddogion cyfreithiol ac ariannol.

Ymhlith y prif bwyntiau a wnaed ynglŷn â chostau roedd y canlynol:

- Roedd y safbwyntiau a fynegwyd ar gostau gan y cynghorau cymuned a ymatebodd yn amrywio, gyda rhai yn nodi bod costau yn ddibwys ac yn gysylltiedig yn bennaf â chostau cyfle a chostau gweinyddol ac eraill yn nodi y byddai angen cyflogi ymgynghorydd busnes a mynd i gostau staffio, costau cyfreithiol a chostau archwilio er mwyn sefydlu'r cwmni.
- Gofynnwyd am ganllawiau ar gostau y dylid eu hystyried a fydd yn benodol i'r sector cynghorau cymuned a thref.
- Ychwanegodd un ymatebydd yr eir i gostau drwy ystyried opsiynau a chynigion datblygu ochr yn ochr ag achosion busnes, ond y dylai'r costau a gaiff eu hadennill gael eu nodi a bod yn agored i'w dilysu drwy weithdrefnau cyfrifyddu sefydledig.

Cwestiwn 9 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft neu'r cynnig mewn perthynas â'r gorchymyn masnachu diwygiedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cadarnhaodd tri ymatebydd o'r sector cynghorau cymuned y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth ym mhob achos busnes. Roedd y sylwadau yn cynnwys cais am ofyniad statudol i gynnal asesiad o'r effaith fel rhan o'r achos busnes, sy'n edrych ar y Gymraeg, treftadaeth leol ac unrhyw effeithiau ar fusnesau lleol eraill.

Nodwyd hefyd, gan nad yw cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd (er eu bod yn agored i hynny), y byddai'n bwysig cynnwys unrhyw gyfeiriad priodol at y Gymraeg mewn unrhyw ganllawiau statudol ar baratoi achos busnes.

Ar wahân i'r ymatebion gan y sector cynghorau cymuned nododd chwe ymatebydd arall fod Safonau'r Gymraeg yn gymwys yn ôl yr arfer.

Cwestiwn 10 – Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y rheoliadau drafft arfaethedig neu'r cynnig mewn perthynas â'r gorchymyn masnachu diwygiedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at eu hateb i Gwestiwn 9 ac ni wnaeth rhai ymatebwyr unrhyw sylwadau o gwbl.

Yn y sylwadau ychwanegol a roddwyd gan ymatebwyr o'r sector cynghorau cymuned gofynnwyd am ganllawiau ar baratoi achos busnes i "nodi y dylai'r broses o roi'r rheoliadau drafft ar waith gydymffurfio â pholisi iaith y cyngor cymuned a'r prif gyngor ac y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal". Ychwanegodd un arall y dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn yr "Amodau sydd i'w bodloni cyn arfer y pŵer cyffredinol i wneud pethau at ddiben masnachol"

Cwestiwn 11 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Codwyd nifer o faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac maent wedi cael eu crynhoi a'u grwpio isod yn ôl sector: cynghorau cymuned; prif gynghorau ac 'arall'.

Y Sector Cynghorau Cymuned:

- Gofynnwyd am ganllawiau ar roi'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar waith at ddibenion masnachol yn y sector cynghorau cymuned.
- Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch creu cangen fasnachu i gyngor cymuned: beth fydd yn digwydd os bydd colled ariannol a phwy fyddai'n atebol amdani; a fyddai dull cyflym o wrthdroi'r sefyllfa a dychwelyd y mater i swyddogaethau arferol yr awdurdod ar gael; pa drefniadau archwilio fyddai eu hangen; a fyddai unrhyw derfynau amser ar y cwmnïau masnachol hyn?
- Mynegodd un ymatebydd bryder y gallai arfer y pŵer arwain at wanhau swyddogaethau craidd y cyngor yn y dyfodol, gyda chynghorau yn gweithredu fel galluogwyr yn unig.
- Roedd cwestiynau eraill am fodloni'r tri amod cyn i gyngor cymuned allu derbyn cynnig i ddod yn gyngor cymuned cymwys ac am beidio â bod yn gymwys rywbryd yn y dyfodol.

Prif gynghorau:

Cafwyd mwy o sylwadau gan ymatebwyr o brif gynghorau ac, unwaith eto, roeddent yn eithaf penodol a thechnegol o ran eu cynnwys. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r sector yn galw am ganllawiau i gynghorau ar ddefnyddio'r pwerau newydd a'r cyfyngiadau, yn enwedig y gwahaniaeth rhwng awdurdod yn masnachu yn y swyddogaethau arferol neu'n arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.
- Gofynnodd nifer o sylwadau am eglurder ynglŷn â manteision y pŵer cymhwysedd cyffredinol; sut y gallai sefydliadau cyhoeddus a phreifat ddod ynghyd â'i gilydd; rhagor o eglurder ynglŷn â'r cyfyngiadau ar y pŵer cyffredinol neu ei derfynau; materion llywodraethu; atebolrwydd; strwythur y cwmnïau (gan gynnwys ansolfedd/cyfrifoldeb am ddyledion); a gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu y dylid eu rhoi ar waith pan fydd cynghorau yn ffurfio partneriaeth â rhanddeiliaid lleol/cyrff eraill.
- Eglurder ynghylch a ganiateir cwmnïau cyfyngedig.
- Pa drefniadau fydd eu hangen wrth baratoi cyfrifon y cwmni a phan fydd y cyfrifon yn cael eu harchwilio gan gorff annibynnol?
- Sut y caiff TAW ei thrin?
- Dylid cyfeirio at yr ymgynghoriad diweddar gan CIPFA a'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Rheoli Trysorlys a'r Cod Materion Ariannol sy'n cyfyngu ar y defnydd o fenthyciadau i dalu unrhyw ddyled ar gyfer prosiectau arenillion. At hynny, ni chaiff awdurdodau lleol ddefnyddio benthyciadau preifat/mewnol i dalu am fuddsoddiadau o'r fath ac wedyn ailgyllido gan ddefnyddio benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.
- A all Aelodau neu Brif Swyddogion Awdurdodau Lleol ddal swyddi cyfarwyddwyr cwmni a/neu ysgrifennydd cwmni?
- Beth am staff sy'n ymgymryd â thasgau ar ran y cwmni – a ydynt yn cael eu cyflogi gan y cyngor neu'r cwmni? A fyddai angen ystyried TUPE?
- Cais am drefniadau, yn ychwanegol at y Cod Ymddygiad presennol, er mwyn rheoli gwrthdaro buddiannau/safbwyntiau rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned.
- Galwodd un ymateb am i achosion busnes a baratowyd gan gynghorau cymuned gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y prif gyngor priodol.
- Yn gyffredinol, nodwyd, o ran sicrwydd risg, y bydd unrhyw anghydfod neu golledion ariannol a achosir gan gynghorau yn niweidio eu henw da yn lleol ac yn genedlaethol.

Sylwadau gan Gyrrff Eraill

- Galwodd un ymatebydd am ystyried secondio staff yn hytrach na threfniadau TUPE; tryloywder o ran yr effaith ar staff wedi'u secondio a staff newydd, mewn perthynas â meysydd megis pensiwn, salwch a'r posibilrwydd y bydd unigolion yn colli eu swyddi os bydd y cwmni yn methu.
- Hefyd, galwodd yr ymateb am ystyried cyfansoddiad bwrdd y cwmni, gan gynnwys sut y caiff y cyngor ei gynrychioli a pha ran y bydd staff a defnyddwyr gwasanaethau yn ei chwarae ynddo.
- Gofynnodd yr ymatebydd gwestiynau hefyd am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran faint o amser y bydd yn ei gymryd i gwnni dalu ei gostau neu wneud elw, sut y byddai'r costau i'r cyngor yn cael eu hadennill; a pha effaith y gallai deddfwriaeth gaffael y DU ei chael ar bŵer awdurdodau lleol i fasnachu.
- Tynnodd ymatebydd arall sylw at God Materion Ariannol CIPFA a newidiadau i drefniadau benthycia'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.
- Galwodd ymatebydd am ddealltwriaeth glir o pryd y dylai awdurdod lleol gamu i mewn os bydd cwmni a sefydlir ganddo yn methu ac a ddylai wneud hynny. Cydnabu'r ymateb ei bod yn bosibl nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gamu i mewn ond y gallai methu â gweithredu beri risg i enw da'r awdurdod lleol a pharhad gwasanaethau. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth y dylid ei gynnwys, o bosibl, yn y broses asesu risg.

- Nododd ymatebydd fod posibilrwydd o waith archwilio a chraffu annigonol mewn perthynas â'r defnydd o arian cyhoeddus ar gyfer rhai gweithgareddau, pe bai'r cwmnïau yn dod o dan eithriad rhag archwilio i gwmnïau bach o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.
- Nododd yr ymatebydd hwn hefyd, lle mae cwmnïau yn ddigon mawr, y bydd dyletswydd arnynt i benodi archwilwyr ac y byddai'n ofynnol i'r cynghorau sicrhau bod penodiadau archwilio priodol yn cael eu gwneud. Mynegodd yr ymatebydd bryder nad oes gan rai cynghorau ddigon o adnoddau, o bosibl, i weithredu prosesau penodi archwilwyr effeithiol.
- Roedd y trydydd sylw gan yr ymatebydd hwn yn canolbwyntio ar gyfuno cyfrifon is-gwmnïau â chyfrifon cynghorau cymuned. Mynegodd yr ymatebydd bryder ei bod yn bosibl nad yw Swyddogion Ariannol Cyfrifol cynghorau cymuned yn meddu ar yr wybodaeth na'r sgiliau i fodloni'r gofyniad hwn. Mae'n debygol y bydd yn rhaid i rai cynghorau, o bosibl, dalu am wasanaethau cyfrifyddu ychwanegol. Cynigiwyd y gallai fod angen ystyried a ddylid ymdrin â materion o'r fath drwy reoliadau neu ddeddfwriaeth arall.

4. Ymateb y Llywodraeth i'r safbwyntiau a fynegwyd

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Er na fydd yr adroddiad hwn yn ymateb i bob un o'r materion a godwyd, mae'r ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth edrych ar fersiwn ddrafft derfynol y Rheoliadau, a sut i gefnogi eu gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw cyhoeddi canllawiau maes o law.

Nodwyd bod cefnogaeth gyffredinol i'r rheoliadau fel y'u drafftwyd, gyda sylwadau yn cytuno bod y rheoliadau drafft yn ymdrin â'r pethau cywir, ar y cyfan, ac yn cynnig y dylai'r rheoliadau fynd ymhellach i ymestyn eu cwmpas i fod yn fwy rhagnodol.

Nid oes unrhyw gonsensws ynghylch a ddylai'r rheoliadau nodi pwy ddylai gymeradwyo'r achos busnes. Mynegodd y mwyafrif safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â'r cyfle y byddai'r rheoliadau yn ei gynnig i gynghorau cymuned cymwys, ac roedd cytundeb cyffredinol y dylid hefyd awdurdodi cynghorau cymuned i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol. Yn yr un modd, roedd cytundeb cyffredinol y dylai prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys fod yn ddarostyngedig i'r un amodau wrth fasnachu yn eu swyddogaethau arferol ac arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol.

Prin oedd y sylwadau y gellid eu defnyddio ynghylch gosod yr amodau wedi'u diweddarau a nodir yn y rheoliadau drafft ar awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol, pan fyddant yn arfer eu pŵer i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol. Barn gyffredinol y rhai a leisiodd farn oedd y dylid trin awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn yr un ffordd â phrif gynghorau, gan roi'r un cyfleoedd i'r cyrff hyn arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Prin oedd y dystiolaeth i awgrymu sut y gellid mireinio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â chostau amcangyfrifedig paratoi achos busnes. Roedd sylwadau'r mwyafrif o'r ymatebion yn rhai amodol i ryw raddau ynglŷn â'r costau gan y byddai cost o'r fath yn amodol ar gymhlethdod yr achos busnes; gan nodi y gallai rhai achosion busnes cymhleth fod yn gostus pan ystyrir amser swyddogion a chyngor swyddogion cyfreithiol ac ariannol.

Nododd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn am y Gymraeg naill ai fod Safonau'r Gymraeg yn gymwys yn ôl yr arfer neu, yn achos y rhai nad oeddent yn ddarostyngedig i'r Safonau, eu

bod yn cydnabod y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth ym mhob achos busnes. Ategwyd y safbwyntiau hyn ymhellach gan y sylw y byddai'n bwysig cynnwys unrhyw gyfeiriad priodol at y Gymraeg mewn unrhyw ganllawiau statudol ar baratoi achos busnes. Cynigiodd ymateb arall y dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn yr amodau sydd i'w bodloni cyn arfer y pŵer cyffredinol i wneud pethau at ddiben masnachol.

Arweiniodd y cwestiwn olaf am unrhyw faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw yn benodol yn yr ymgynghoriad at amrywiaeth o bwyntiau. Mae'r sylwadau a'r cwestiynau a gynhwyswyd gan yr ymatebwyr yn ddangosydd defnyddiol o'r wybodaeth allweddol y mae'n bwysig ymdrin â hi ar ran rhanddeiliaid.

5. Y camau nesaf

Cynigir dau brif newid i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad, sef: ei gwneud yn ofynnol i achosion busnes gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn penderfyniad y cyngor i'w gymeradwyo, ac i'r achos busnes gynnwys effeithiau ar staff.

Galwodd llawer o sylwadau am i'r rheoliadau ymdrin â materion mwy ymarferol ehangach wrth ddatblygu achosion busnes. Ar y cyfan, mae'r sylwadau hyn yn fwy priodol ar gyfer canllawiau posibl i roi cyngor, opsiynau ac enghreifftiau. Byddai angen i unrhyw ganllaw ganiatáu i'r dulliau gwahanol gael eu cymryd mewn ymateb i gymhlethdod a phroffil risg pob cynnig. Gallai darparu templedi ac enghreifftiau arwain at orddibyniaeth ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn hytrach na rhoi ystyriaeth lawnach i'r holl ffeithiau perthnasol a fydd yn amrywio fesul achos. Mae llawer o gyngor a chanllawiau cyffredinol ar gynllunio achosion busnes ar gael yn eang sydd'n briodol i'w defnyddio gan y sector llywodraeth leol.

Wrth gwrs, os bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau wedi'u teilwra, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i'w llunio. Mae'r cyfle cyntaf yn codi yn y canllawiau statudol i gynghorau cymuned a thref er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer yr holl newidiadau deddfwriaethol a fydd yn effeithio ar y sector hwn, a ddaw i rym ar 5 Mai 2022. Cyhoeddir y canllawiau drafft hyn er mwyn ymgynghori arnynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn galendr hon a byddant yn llywio'r gwaith o gynllunio achosion busnes fel rhan o'r canllawiau ar arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Bwriedir i'r Rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron Senedd Cymru ar ôl toriad yr haf ac, ar yr amod y bydd yn cytuno arnynt, byddant yn cael eu gwneud yn ystod Hydref 2021 ac yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2021 ar yr un pryd ag y daw'r pŵer cyffredinol i brif gynghorau i rym.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i weithio gyda phrif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, cyrff rheoleiddio priodol a phartneriaid eraill sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn, ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym, er mwyn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Prif gynghorau

Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Dinas Abertawe
Cyngor Sir Benfro - dau ymateb ar wahân

Cynghorau Cymuned a Thref

Cyngor Tref Abergele
Cyngor Cymuned Clydach
Cyngor Cymuned Llandochoau
Cyngor Gwledig Llanelli
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Tref Penarth
Cyngor Tref Rhaeadr Gwy

Corff Archwilio/Arolygu/Rheoleiddio

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Comisiynydd y Gymraeg

Cyrff cynrychioliadol, Cyrff proffesiynol neu Gymdeithasau

Un Llais Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Undebau Llafur

UNSAIN Cymru

Cwmnïau Preifat

Link Group

Arall

Ffederasiwn Busnesau Bach

Dienw

Pum cyflwyniad